## A gaf i ddewis peidio â chael CDU?

Os ydych chi'n teimlo, oherwydd bod addysg ddewisol yn y cartref yn diwallu anghenion eich plentyn, nid oes angen CDU mwyach, gellir gwneud penderfyniad i roi'r gorau i'r CDU. Mae rhagor o wybodaeth am hyn ar gael yn Nhaflen 6.

## Beth fydd yn digwydd i fewnbwn addysgu arbenigol neu arbenigedd yn yr ysgol ar gyfer diwallu anghenion ADY?

Gellir darparu ar gyfer y rhan fwyaf o blant ag ADY mewn ysgol brif ffrwd ac mae pob ysgol yng Nghaerdydd yn cynnig darpariaeth gynhwysfawr a all helpu'ch plentyn gyda'i anghenion. Os yw'ch plentyn yn derbyn cefnogaeth gan dimau arbenigol mewn ysgolion, efallai y bydd yr athro cynorthwyol yn gallu cyfrannu at gyfarfod sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a chynnig cyngor ar y DDdY y bydd ei angen gartref ac y dylid ei chynnwys yn y CDU.

## Beth allaf ei wneud os byddaf yn anghytuno â phenderfyniad yr awdurdod lleol?

Yn y lle cyntaf, byddai'n bwysig trafod hyn gyda swyddog yr ALI neu gael cyngor annibynnol am ddim drwy SNAP Cymru, a fydd yn gallu ateb unrhyw gwestiynau neu ymholiadau sydd gennych. Os na allwch ddatrys hyn gyda'r ALI bydd gennych hawl i apelio y gall Tribiwnlys Addysg Cymru ymdrin â hi. Bydd yn cynnal gwrandawiad i benderfynu beth sydd orau i'ch plentyn.

Llinell gymorth a chyngor ADY yr Awdurdod Lleol ar; ffôn: 029 2087 2731 neu e-bost ADY helpline@cardiff.gov.uk

## O ble caf i Gyngor Annibynnol?

Os hoffech gyngor, cymorth neu wybodaeth annibynnol, gallwch gysylltu â SNAP Cymru drwy ffonio 0808 801 0608
ymholiadau ar snapcymru.org
www.snapcymru.org/contact

## Gwybodaeth Ychwanegol

**Addysg yn y Cartref: llawlyfr i addysgwyr yn y cartref**
**Gwefan Awdurdod Lleol Caerdydd**
**www.cardiff.gov.uk/ALN**

Crëwyd Hydref 2023

UCHELGAIS PRIFDDINAS CAPITAL AMBITION
CARDIFF CAERDYDD

**Taflen 10**
Gwybodaeth i rieni

# Canllaw i
# ADDYSG DDEWISOL YN Y CARTREF AC ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL (ADY)

Mae Awdurdod Lleol Caerdydd yn annog dysgwyr, rhieni, ysgolion a gweithwyr proffesiynol i weithio mewn partneriaeth.



UCHELGAIS PRIFDDINAS CAPITAL AMBITION
CARDIFF CAERDYDD

## Beth yw Addysg Ddewisol yn y Cartref?

Addysg gartref yw pryd mae rhieni a gofalwyr yn addysgu eu plant gartref yn hytrach na'u hanfon i'r ysgol. Rhaid i'r addysg a ddarperir fod yn 'llawn-amser', 'addas' ac 'effeithlon'. Rhaid i rieni a gofalwyr sy'n dewis addysgu eu plant gartref fod yn barod i gymryd cyfrifoldeb ariannol llawn am addysg eu plant.

## Beth yw Angen Dysgu Ychwanegol?

Mae gan berson ADY os oes ganddo/i anhawster dysgu neu anabledd (p'un a yw'r anhawster dysgu neu'r anabledd yn deillio o gyflwr meddygol ai peidio) sy'n galw am Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol. Gweler taflen 1 am ragor o wybodaeth.

## Sut ydw i'n cofrestru fy mhlentyn ar gyfer Addysg Ddewisol yn y Cartref?

Os yw'ch plentyn yn mynychu ysgol brif ffrwd ar hyn o bryd, rhaid i chi ysgrifennu at yr ysgol i'w hysbysu o'ch penderfyniad i addysgu eich plentyn gartref. Os oes gan eich plentyn le mewn darpariaeth arbenigol, bydd yn rhaid i'r awdurdod lleol gytuno i gais rhiant, cyn y gellir ei dynnu oddi ar gofrestr yr ysgol. Pan fydd eich plentyn yn cael ei dynnu oddi ar y gofrestr, bydd yr ysgol yn hysbysu'r tîm addysg ddewisol yn y cartref yng Nghyngor Caerdydd a bydd Swyddog o'r tîm hwnnw yn cysylltu â'r teulu.
Rôl y swyddog yw darparu cymorth ac arweiniad i deuluoedd sy'n addysgu gartref. Cyfrifoldeb y swyddog yw sicrhau ar ran yr awdurdod lleol y darperir addysg effeithlon, addas a phriodol i'ch plentyn.

## Ar hyn o bryd mae fy mhlentyn yn mynychu ysgol brif ffrwd ac mae ganddo Gynllun Datblygu Unigol. Pa effaith fydd Addysg Ddewisol yn y Cartref yn ei chael ar hyn?

Os oes gan eich plentyn Gynllun Datblygu Unigol (CDU) eisoes a gynhelir gan yr ysgol, dylai'r ysgol wneud cais i drosglwyddo'r cyfrifoldeb amdano i'r Awdurdod Lleol, pan fydd eich plentyn yn cael ei dynnu oddi ar gofrestr yr ysgol. Bydd panel Awdurdod Lleol yn ystyried y cais ac yn penderfynu a yw eich plentyn sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref yn parhau i fod ag ADY sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol gynnal CDU.

## Ar hyn o bryd mae fy mhlentyn yn mynychu ysgol arbennig ac mae ganddo Gynllun Datblygu Unigol. Pa effaith fydd Addysg Ddewisol yn y Cartref yn ei chael ar hyn?

Os bydd eich plentyn yn mynychu ysgol arbennig, bydd angen i chi gael caniatâd gan yr awdurdod lleol cyn ei dynnu oddi ar gofrestr yr ysgol a gofyn i'r awdurdod lleol adolygu ei CDU

## Beth ddylwn i ei wneud os ydw i'n meddwl bod gan fy mhlentyn Anghenion Dysgu Ychwanegol ond nad oes ganddo CDU?

Gall rhieni a gofalwyr plentyn sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref nad oes ganddo CDU ofyn i'r awdurdod lleol benderfynu a oes gan eu plentyn Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) drwy gwblhau Hysbysiad Anghenion Dysgu Ychwanegol. Os yw'r awdurdod lleol yn penderfynu bod gan y plentyn ADY, bydd yn llunio CDU ar gyfer y plentyn. Gall swyddog dynodedig yr awdurdod lleol ddarparu cymorth gyda'r broses hon.

## Beth yw rôl Swyddog Dynodedig yr Awdurdod Lleol?

Rôl Swyddog Dynodedig yr Awdurdod Lleol yw darparu arweiniad ar y broses y mae angen ei dilyn o ran adnabod ADY ac, os cytunir gan yr awdurdod lleol bod gan eich plentyn ADY sy'n gofyn am Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY), bydd yn gyfrifol am gydlynu cyfarfodydd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac am ysgrifennu'r CDU. (Gweler Taflen 3 a 4 am fwy o wybodaeth am gyfarfodydd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a CDUau)

## Pwy fydd yn gyfrifol am y Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol yn CDU fy mhlentyn?

Os yw'r awdurdod lleol yn penderfynu bod gan eich plentyn ADY, rhaid iddo baratoi a chynnal CDU a sicrhau'r DDdY a ddisgrifir yn y cynllun hwnnw. Nid yw hyn yn golygu bod yn rhaid i'r awdurdod lleol ddarparu'r DDdY yn uniongyrchol. Er enghraifft, os yw'r CDU yn nodi mai'r DDdY yw cymorth un-i-un, gallai hyn gael ei ddarparu gan y rhiant neu'r gofalwr sy'n addysgu'r plentyn yn y cartref. Fodd bynnag, rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod y DDdY yn cael ei darparu. Byddai hyn yn cael ei asesu fel rhan o'r adolygiad CDU a gynhelir gan yr awdurdod lleol yn flynyddol.

## Sut bydd CDU yn cael ei ysgrifennu?

Bydd Cyfarfod neu Adolygiad sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn yn cael ei drefnu gan Swyddog Dynodedig yr Awdurdod Lleol i roi Cynllun Datblygu Unigol ar waith i gefnogi'ch plentyn. Gellir cynnal y cyfarfod hwn yn eich cartref neu mewn lleoliad arall y cytunwyd arno. Chi fel rhieni a'ch plentyn fydd wrth wraidd y penderfyniad a'r broses gynllunio. Gofynnir i chi pwy hoffech gael gwahoddiad i'r cyfarfod. Gweler Taflen 8 am ragor o wybodaeth.